Lt 935. S. 206

"COFFADWRIAETH Y CYFIAWN SYDD FENDIGEDIG."

# Marwnad ar ol y diweddar Barch. DAVID WILLIAMS, Troedrhiwdalar.

**Yr hwn a fu farw dydd Iau, Awst 20fed, 1874, yn 95 mlwydd oed. Urddwyd ef yn y flwyddyn 1803, a bu yn pregethu gyda'r Annibynwyr am yr ystod maith o 75 mlynedd, ac yn gweinidogaethu am 71.**

TON, —'*Bryniau'r Iwerddon.*"

Mae Cymru'n awr mewn galar
A phrudd-der ar bob gwedd.
Y gwr o Droedrhiwdalar
Sydd heddyw yn ei fedd;
Bu yn pregethu'r Iesu
Yn Nghymru flwyddi maith,
Ond Ow! mae wedi tewi
Ar derfyn ei hir daith.

Pwlpudau'r Annibynwyr
Sy'n awr dan orchudd du
O barch i dad pregethwyr—
Ein Dafydd Williams gu;
A llawer o'i gyfeillion
Sy'n awr mewn gofid dwys,
Am golli'r bugail ffyddlon
A guddiwyd dan y gwys.

Fe gladdwyd y gweinidog
Ffyddlonaf fu erioed;
Ni fu yr un mor selog,
Yn fyw nid allai fod;
Dechreuodd ar ei yrfa
Yn fywiog gyda'r gwaith,
A daliodd heb atalfa
I gario'r arch heb graith.

Cenedlaeth ar genedlaeth
A welodd Williams wiw—
Ca'dd weled teiroes helaeth
O wasanaethu Duw;
O! faint a welodd yntau
Yn cael ei rhoi'n y bedd?
Ond heddyw fe ddaeth angau
I'w daro ef â'i gledd!

Fe dybiem bron buasai
Fel Enoch yn cael byw
Heb weled afon angau
Wrth rodio gyda Duw.
Y cawsai fyned ymaith
Heb deithio drwy y glyn,
A chael mynediad helaeth
Yn iach i Seion fryn.

Ond yntau a fu farw
Yn oedrau tecaf gwr,
Ond ni cha'dd dywydd garw
Wrth iddo groesi'r dwr;
Ei lestr oedd dan hwyliau,
A'r awel oedd o'i du,
A glanio wnaeth yn ddiau
Yn mhorthladd Canaan fry.

Cysegrodd ei holl fywyd
I wasanaethu'r Ior—
Ei gartref oedd y pwlpud,
A'r Beibl oedd ei stôr;
Pregethu ydoedd amcan
A dyben mawr ei oes—
Pregethodd fywyd cyfan
Am aberth Crist a'i groes.

Bu saith deg pump o flwyddi,
Ar geffyl neu ar draed,
Yn teithio i gyhoeddi
Am rinwedd mawr y gwaed,
A lluoedd mawr a ddeuai
O bell i'w wrando ef
Yn traethu'n glir a difai
Am iachawdwriaeth gref.

Llanwrtyd a'i chyffiniau
Oedd cartre'r duwiol wr,
Bu yno lawer borau
Yn drachtio'r iachus ddw'r;
Ond cafodd y trigolion,
Do, ganddo well iachâd
Wrth wrando am y ffynhon
A ffrydiai ddw'r a gwaed.

Yn Nantydderwen ganwyd
Yr hen bererin llon,
O! pwy na pharchai'r gronglwyd
Na thalai deyrnged bron
O barch a gwir warogaeth
I'r anedd sydd mor wael,
Lle rhoddwyd genedigaeth
I Dafydd Williams hael.

Er bod yr hen adeilad
Yn adfail wael ddiwerth,
Mae'n dwyn i'n cof bob eiliad,
Y gwr fu'n gwisgo nerth—
Yn troi calonau miloedd
At y Gwaredwr Mawr,
A ddaeth o lys y nefoedd
I ddyoddef ar y llawr.

Aeth ef o fyd y galar
I fyd gorfoledd pur,
Mae Williams Troedrhiwdalar
Yn awr yn Nghanaan dir;
A chyda'r saint mae'n canu
Mewn hwyl nefolaidd fawl,
I'r Hwn y mae yn garu
A'i barchu'n ngwlad y gwawl.

Dych'mygaf wel'd gosgorddlu
Yn cwrdd dyr ochr draw,
I dderbyn a chroesawu
Eu ffrynd i'r wledd gerllaw,
Yn cerdded yn orymdaith
Ddysglaerwych bob yn ddau,
I fewn i'r ddinas odiaeth
Dan foli a llawenhau.

Ac yn eu plith yn dilyn
Caledfryn o Groeswen;
A Williams Pantycelyn
A'r goron ar ei ben;
A Noah Stephens anwyl
Ac Emrys gyda hwy,
Ac Isaac Price yn dysgwyl
Yn iach heb glais na chlwy.

Ac wele John Elias
A Williams o'r wern gu,
Ac hefyd yr hen Gristmas
Sydd yn blaenori'r llu;
Maent oll mewn gynau gwynion
A phalmwydd yn eu llaw,
A phawb yn gwisgo coron
O aur yr ochr draw.

Ffarwel, i ti'r hen wron,
Ni chawn dy weled mwy,
Nes cyrhaedd dinas Seion
Lle nad oes boen na chlwy;
Disgyned 'nawr dy fantell
Ar ryw un ar y llawr,
A chaffed dy ddiadell
Arweiniad Bugail Mawr.

Merthyr. EGWEST

J. Davies, Argraffydd, &c., Glyn Ebwy.

X203316769